



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board

Cadeirydd Dros Dro/ Interim Chair: **Emma Woollett**
Prif Weithredwr/Chief Executive: **Tracy Myhill**

gofalu am ein gilydd, cydweithio, gwella bob amser
caring for each other, working together, always improving

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Dyddiad/Date: 8th November 2019
Ein Cyf / Our Ref: 19-J-019

01639 648363

FOIA.Requests@wales.nhs.uk

[REDACTED]

Gwasanaethau Corfforaethol
Pencadlys
1 Porthfa Talbot
Baglan
Port Talbot, SA12 7BR

[REDACTED]

Cyfeiriaf at eich Cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth a gydnabuwyd gennym ar 15 Hydref 2019. Roedd eich cais yn gofyn am wybodaeth yn perthyn i enedigaethau yn y cartref.

Faint o'ch cleifion sy'n trefnu i gael genedigaethau yn y cartref?

Cadarnhaoch nad oeddech eisiau'r ffigyrau ble y ganwyd baban yn y cartref oherwydd bod angenrheidrwydd i wneud hynny. Roeddech ond angen y rhifau ble y trefnodd y mamau i roi genedigaeth i'w baban yn y cartref cyn yr enedigaeth ei hun.

A ydych yn medru darparu'r data ers 2014? Os felly, a allech chi rannu'r data ar gyfer pob blwyddyn hyd at 2019, a darparu'r canran yn erbyn y swm cyfan o enedigaethau o dan eich bwrdd iechyd. (e.e. roedd 3% o'n genedigaethau cofnodedig yn enedigaethau yn y cartref).

Nodwch pan fydd menyw yn cysylltu â'i bydwraig i roi gwybod iddi ei bod yn credu ei bod ar fin esgor, bydd y fydwraig yn gwneud asesiad cartref. Os bydd menyw yn rhoi gwybod ei bod eisiau rhoi genedigaeth gartref yn ystod yr adeg hon, ystyrir yr enedigaeth yn enedigaeth yn y cartref ac adlewyrchir hyn yn y ffigyrau isod.

Roedd yna newid mewn meddalwedd Mamolaeth yn ystod 2014 felly mae'r data ar gyfer 2014 yn anghyflawn a heb ei gynnwys.

2015 – 3.5% (216 o unigolion) yw'r nifer a gafodd enedigaeth yn y cartref

2016 – 3.2% (191 o unigolion) yw'r nifer a gafodd enedigaeth yn y cartref

2017 – 3.05% (179 o unigolion) yw'r nifer a gafodd enedigaeth yn y cartref



Pencadlys BIP Bae Abertawe, Un Porthfa Talbot, Port Talbot, SA12 7BR / Swansea Bay UHB Headquarters, One Talbot Gateway, Port Talbot, SA12 7BR

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yw enw gweithredu Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe
Swansea Bay University Health Board is the operational name of Swansea Bay University Local Health Board

2018 – 3.44% (199 o unigolion) yw'r nifer a gafodd enedigaeth yn y cartref

Os ydych hefyd yn medru rhoi gwybod i ni faint o'r genedigaethau yma a arweiniodd at ymweliadau i'r ysbyty naill ai cyn neu ar ôl yr enedigaeth byddai hynny yn ddefnyddiol iawn.

Byddai cael gafael ar y wybodaeth hon yn golygu chwilio drwy'r holl gofnodion wrth law, ac amcangyfrifwn y byddai hyn wedi cymryd mwy na'r terfyn amser o 18 awr a osodwyd gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fel y terfyn rhesymol. Mae Adran 12 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn darparu nad oes raid i ni wario mwy na 18 awr mewn unrhyw gyfnod chwe deg dydd yn darganfod, adalw ac adnabod gwybodaeth er mwyn delio gyda chais am wybodaeth ac felly nid ydym yn darparu'r wybodaeth yma ar yr adeg hon.

Gobeithiaf fod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol. Os ydych angen unrhyw beth pellach, cysylltwch â ni drwy ddanfôn e-bost at FOIA.Requests@wales.nhs.uk.

O dan dermau polisi Rhyddid Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd, mae hawl gan unigolion sydd am gael mynediad i wybodaeth wedi ei gofnodi a ddelir gan y Bwrdd Iechyd i ofyn am adolygiad mewnol o sut y trafodwyd eu ceisiadau. Os hoffech gwyno am sut y deliodd y Bwrdd Iechyd â'ch cais, cysylltwch â mi yn uniongyrchol drwy'r cyfeiriad isod neu cyflwynwch eich cwyn i'r cyfeiriad e-bost canlynol:
FOIA.Requests@wales.nhs.uk.

Os nad ydych yn fodlon ar ôl yr Adolygiad Mewnol mae gennych hefyd yr hawl i gyfeirio'r mater at y comisiynydd gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), Ail Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH. Rhif ffôn: 029 2067 8400.

Yr eiddoch yn gywir



Pam Wenger
Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol

